

Nodyn crynodeb o'r cyfarfod - 20 Hydref 2021

Y rhai a fynychodd

- Carrie MacEwen, Cadeirydd Dros Dro GMC (Cadeirydd)
- David Bailey, BMA Cymru
- Steve Burnett, Aelod o Gyngor GMC
- Chris Jones, Llywodraeth Cymru
- Kamila Hawthorne, Ysgol Feddygol Abertawe
- Robert Khan, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Swyddfeydd Cenedlaethol GMC
- Phil Kloer, Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Blanche Lumb, Cymrawd Clinigol
- Push Mangat, Gwella Addysg Iechyd Cymru (AaGIC)
- Charlie Massey, Prif Weithredwr GMC
- Sara Moseley, Pennaeth Cenedlaethol GMC Cymru
- Angela Mutlow, Bwrdd y Cyngor Iechyd Cymunedol (CHC)
- Stephen Riley, Ysgol Feddygol Caerdydd
- Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau GMC
- Keshav Singhal, Cymdeithas Meddygon Prydain o darddiad Indiaidd (BAPIO) i Gymru
- Evan Sun, Cyd-gadeirydd, BMA Cymru, Pwyllgor Meddygon Iau Cymru (WJDC)
- Abrie Theron, Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru
- Manel Tippett, Rheolwr Polisi a Materion Allanol GMC (nodiadau)

Croeso a Chyflwyniad y Cadeirydd Dros Dro

- 1 Croesawodd Carrie MacEwen, Cadeirydd Dros Dro y GMC, y mynychwyr ac esboniodd ein bod yn byrhau'r cyfarfod o ddwy awr i awr a chwarter, i gydnabod y pwysau allanol sy'n wynebu ein Haelodau. Esboniodd ein bod yn awyddus i ddefnyddio'r cyfarfod i drafod y gweithlu a materion eraill sy'n benodol i Gymru, ac i ystyried sut y gall pob un ohonom gefnogi'r system iechyd ehangach yn ystod yr amser anodd hwn.

Adolygiad o weithredoedd blaenorol

- 2 Rhoddodd Sara Moseley, Pennaeth y GMC Cymru, y wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu o'r cyfarfod ddiwethaf a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021. Dywedodd ein bod, ym mis Mehefin, wedi rhannu ein hymateb gydag Aelodau o ymgynghoriad *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol* llywodraeth Cymru, gan groesawu'r cynllun a

nodi'r rôl y gall y GMC ei chwarae trwy gasglu a rhannu data, cefnogi eraill i fynd i'r afael â chyrhaeddiad gwahaniaethol, ac ymdrin yn gynnar â phryderon a godwyd am raddedigion meddygol rhyngwladol (IMGs) a meddygon lleiafrifoedd ethnig ynghyd ag estyn cefnogaeth iddynt, yn enwedig yn ystod eu cyfnod sefydlu.

- 3** Rydym wedi adeiladu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth bellach o'r materion sy'n wynebu IMGs a meddygon lleiafrifoedd ethnig a'u gwerth a'u pwysigrwydd aruthrol yng Nghymru. Yn benodol, fe wnaethon ni ganolbwyntio ar yr hyn rydyn ni'n gwybod am brofiadau meddygon Arbenigol ac Arbenigol Cyswllt (SAS), trwy gyfarfodydd â rhan-ddeiliaid allweddol gan gynnwys y BMA Cymru, Llywodraeth Cymru a Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan.
- 4** Rydym yn parhau â'n gwaith i gyrraedd ein targedau cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys trafodaethau parhaus gyda Swyddogion Cyfrifol (RO) mewn Byrddau Iechyd ynghylch ein trothwyon ar gyfer atgyfeiriadau i'n prosesau Ffitrwydd i Ymarfer (FtP). Gwnaethom wahodd AaGIC i siarad yn ein digwyddiad Bord Gron Addysg ym mis Medi 2021 ar eu gwaith yn ymwneud â chyrhaeddiad gwahaniaethol.
- 5** Rydym yn parhau i weithio ar y cyd a AaGIC a Byrddau Iechyd i ddarparu ac ehangu sesiynau Croeso i Ymarfer y DU (WtUKP) ledled Cymru trwy drafodaethau parhaus a chynigion o gefnogaeth.

Sylwadau agoriadol y Prif Weithredwr

- 6** Rhoddodd Charlie Massey, Prif Weithredwr GMC, ddiweddariad byr ar ein gwaith. Dywedodd mai cefnogi recriwtio a chadw gweithlu'r GIG yw'r blaenoriaethau allweddol. Myfyriodd ar ein rôl wrth sefydlu'r gofrestr argyfwng dros dro, gan nodi nad yw cyflogwyr ledled y DU wedi gallu defnyddio'r mesur hwn yn llawn.
- 7** Amlygodd Charlie ein gwaith i barhau gyda PLAB a sut mae hwn yn helpu i gynnal recriwtio rhyngwladol. Ond dywedodd bod effeithiau gor-weithio a blinder yn waeth na blwyddyn yn ôl ac mae ein *Adroddiad Arolwg* diweddar *Cwblhau'r Llun* yn dangos bod hwn yn ffactor allweddol wrth i feddygon adael y gofrestr. Rydym yn obeithiol, fodd bynnag, y bydd Diwygio Rheoleiddio yn helpu gyda recriwtio a chadw staff, yn enwedig ynglŷn â Chydymaith Meddygol (PAs) a'u cyflogadwyedd.
- 8** Dywedodd fod meddygon yn gweithio dan bwysau aruthrol mewn amgylcheddau anodd ac felly, rhaid darparu diogelwch seicolegol iddynt yn y gweithle ac nid ofni dial os aiff pethau'n anghywir. Cyfeiriodd at erthygl y BBC ar Ysbyty Grange, a nododd bod meddygon yn poeni y gallai unrhyw gamgymeriadau effeithio ar eu cofrestrriad. Ailadroddodd, pe bai meddyg yn gweithio gyda gonestrwydd o fewn y safonau, nad oes ganddynt ddim i'w ofni.
- 9** Mae aliniad rheoliadol yn symud ymlaen yn gyflym yng Nghymru gan ein bod bellach yn gweithio'n agosach gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) i alinio ein data

ac yn esgoli pryderon pan fyddant yn digwydd. Bydd hwn yn rhoi sicrwydd bod amgylcheddau gwaith yn ddiogel i'r proffesiwn ac i gleifion.

- 10** Rydym yn gosod ein targed i ddileu atgyfeiriadau FtP a Chyrhaeddiad Gwahaniaethol. Rydym wedi defnyddio'r dull hwn i symud y ddadl i "beth sydd angen i ni wneud". Mae dros 60% o'r meddygon a ymunodd llynedd yn uniaethu fel lleiafrif ethnig. Dywedodd bod y *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol* yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r GMC ac rydym am adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud i ddangos sut mae 'da' yn edrych.

Trafodaeth

- 11** Gwahoddodd y Cadeirydd Dros Dro Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (DCMO) yn Llywodraeth Cymru i roi ei farn o'r heriau y mae Cymru yn wynebu. Amlinellodd ddifrifoldeb y sefyllfa ac eglurodd sut roedd cysylltiad annatod rhyngddynt ac y byddai misoedd y gaeaf yn ychwanegu at y pwysau presennol.
- 12** Roedd y drafodaeth a ddilynodd yn canolbwyntio ar yr anawsterau yr oedd meddygon yn eu hwynebu oherwydd y cyfuniad o swyddi staff gwag, cynnydd yn y llwyth gwaith ac effeithiau o or-weithio. Y meysydd manwl a drafodwyd oedd:
- **Cofrestr Brys Dros Dro (TER):** trwy gydol y pandemig mae'r GMC wedi darparu rhestrau wedi'u diweddarau i lywodraethau, sydd wedyn yn cael eu rhannu â Byrddau Iechyd. Gall Byrddau Iechyd ddefnyddio'r rhestrau hyn i gysylltu â meddygon sydd wedi ymddeol. Nodwyd bod y nifer a ail-ymunodd â'r gweithlu o alwadau blaenorol yn isel, ond efallai bod meddygon wedi newid eu meddyliau ers ddechrau'r pandemig felly mae'n werth adolygu'r rhestr. Cytunodd Phil Kloer, MD yn Hywel Dda i ailedrych ar y rhestr ac annog Cyfarwyddwyr Meddygol eraill i wneud yr un peth.
 - **Cadw:** Mae AaGIC wedi blaenoriaethu cadw gweithlu ac yn cwrdd yn rheolaidd â Byrddau Iechyd i adolygu data ar swyddi staff gwag. Er bod y data'n dangos pwy a faint sy'n gadael y proffesiwn, nid yw'n eglur pam eu bod yn gadael. Mae *Adroddiad Arolwg Cwblhau'r Llun* y GMC yn rhoi'r arwydd cliraf bod llawer o feddygon ledled y DU yn gadael oherwydd effeithiau gor-weithio, yn enwedig mewn gofal cychwynnol. Nodwyd bod cadw staff nyrsio yn destun pryder mwy ac yn fwy uniongyrchol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru.
 - **Cydymaith Meddygol (PA):** Mae'n ymddangos y bu datblygiadau cadarnhaol yng Nghymru o ran cyflogadwyedd PAs. Am y tro cyntaf eleni bu symleiddio prosesau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer nodi swyddi ar gyfer PAs. Daethpwyd o hyd i rolau i bob PA dros dro am flwyddyn (fodd bynnag, nid yw'n eglur ble maen nhw'n mynd ar ôl hyn). Mae Hywel Dda ar fin cyflogi Arweinydd PA yn y Bwrdd Iechyd.
 - **Negeseuon cefnogol i'r proffesiwn:** Rhaid i feddygon deimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod yr amser anodd hwn a chytunodd yr Aelodau bod angen

neges ar y cyd i dawelu meddwl y proffesiwn a lleihau straen ac ofn. Cafwyd sawl cynnig i gydweithio ar hwn. Awgrymodd Dr Chris Jones y dylid ddatblygu'r cyfathrebu, gan gynnwys dogfen Cwestiynau Cyffredin a oedd yn darparu'r ffeithiau i feddygon ar y rheng flaen.

- **Tosturi gan bawb sy'n gweithio yn y system:** Roedd yr aelodau'n cydnabod y tensiynau cynyddol rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, a rhwng yr arbenigeddau, yn enwedig yr effaith y bydd hwn yn cael ar farn myfyrwyr meddygol. Nid oes unrhyw un rhan o'r gwasanaeth yn atebol am fethiannau gan fod yn rhaid i'r system weithio ar y cyd. Nodwyd bod rhai arbenigeddau wedi ceisio mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol o'u proffesiwn. Roedd yr holl Aelodau'n cydnabod mai'r hyn sydd angen yw tosturi ehangach.
- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ED&I):** Nododd yr aelodau y weithredoedd o'r UKAF blaenorol a chytunwyd bod yn rhaid i'r gwaith da barhau, yn enwedig rhannu arfer da a gweithio'n agos gyda'r rolau SAS newydd yn y Byrddau Iechyd. Mae Blanche Lumb, Cymrawd Clinigol GMC/AaGIC yn arwain prosiect sy'n edrych ar egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol, a'u cysylltiad ag ED&I a'r gweithlu, gyda ffocws ar brofiadau meddygon SAS o'r GIG yng Nghymru. Roedd yr aelodau'n awyddus i gymryd rhan yn y prosiect hwn.

Crynodeb Gweithredol

13 Diolchodd y Cadeirydd Dros Dro i holl aelodau'r Fforwm, gan nodi bod yn rhaid i ni newid y naratif i helpu i gefnogi'r proffesiwn cyfan, o fyfyrwyr meddygol i'r rhai sydd ar fin ymddeol.

14 Caeodd y cyfarfod gyda chrynodeb byr o'r drafodaeth. Nododd:

- Pwysigrwydd y Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Meddygol (gan gynnwys PAs) i'r gweithlu ehangach a'r angen i ddod at ei gilydd i'w cefnogi.
- Y gwaith da a wnaed eisoes mewn Byrddau Iechyd i gefnogi meddygon SAS yn well o dan y contract Meddygon SAS a sut y gall y prosiect Cymrodoriaeth Glinigol fwydo i mewn i hwn.
- Yr angen am gyfeirio gwell a rhannu gwybodaeth dda i feddygon, lle gall pobl fynd am gymorth a chefnogaeth gan y GMC, Llywodraeth Cymru a chyfarwyddwyr meddygol.

Camau y cytunwyd arnynt er mwyn i'r GMC:

- Ddarparu darlun cliriach o'n data Cyrhaeddiad Gwahaniaethol gyda AaGIC a phartneriaid, gan gynnwys y gwahaniaethau rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU.

- Weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ganllawiau a chyfathrebu i feddygon a fydd yn eu cefnogi a'u tawelu wrth weithio dan bwysau mewn gwahanol amgylcheddau ac, i ystyried y cylch bywyd meddygol cyfan - o'r brifysgol i'r ymddeoliad - yn ein hymgysylltiadau.
- Ystyried ehangu sesiynau addysgol Allgymorth i feddygon o amgylch ein prosesau FtP i'w sicrhau o'n prosesau a chwalu unrhyw gamdybiaethau.
- Gymryd gwersi o'n *Adroddiad Arolwg Cwblhau'r Llyn* ar gadw meddygon a'u rhannu gyda'n partneriaid gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio'r gweithlu.
- Weithio i gefnogi MAPs fel rhan o gynllunio'r gweithlu.
- Weithio gyda Chyfarwyddwyr Meddygol i gefnogi arweinyddiaeth sydd wedi'i gwreiddio yn safonau GMC.
- Barhau â'n hymrwymadau ED&I gan gynnwys cydweithredu â phartneriaid, i ddeall y materion allweddol a thrafod sut y gallwn gefnogi IMG a meddygon lleiafrifoedd ethnig orau.
- Ddatblygu cysylltiadau pellach i gefnogi gwaith ein Cymrawd Clinigol ar ddiwylliannau a llwybrau cadarnhaol ar gyfer meddygon SAS.

15 Dyddiad y cyfarfod nesaf: i'w gadarnhau.